**RHEOLIADAU DIOGELU IECHYD (CYFYNGIADAU CORONAFEIRWS) (RHIF 2) (CYMRU) (DIWYGIO) 2020**

**Pwyntiau craffu ar rinweddau:**

*Troednodyn*

1. Mae'r Adroddiad drafft hwn yn nodi bod y troednodyn i reoliad 2(1) yn cyfeirio at O.S. 2020/725 (Cy. 162) yn hytrach na (Cy. 163). Er bod y Llywodraeth yn cytuno y dylai'r cyfeiriad llawn fod at "(Cy. 163)" mae'n ystyried bod defnyddio enw'r OS a'i rif adnabod unigryw fel rhan o Gyfres OSau y DU yn sicrhau y gallai'r defnyddiwr ddod o hyd i'r Rheoliadau o dan sylw, ac mae hefyd yn cytuno â sylw'r Adroddiad nad yw'r troednodyn yn ffurfio rhan o'r gyfraith.

*Y Nodyn Esboniadol*

2. Mae'r Llywodraeth yn cytuno â sylw'r Adroddiad drafft fod geiriau ar goll o baragraff cyntaf y Nodyn Esboniadol i destun Saesneg y Rheoliadau. Byddwn yn ceisio cywiro hyn drwy drafodaethau â'r Archifau Gwladol.

*Y Memorandwm Esboniadol*

3. Mae'r Adroddiad drafft yn nodi bod y Memorandwm Esboniadol yn defnyddio'r term "Rheoliadau gwreiddiol" heb ddiffinio'r term hwn. Mae'r Llywodraeth yn cytuno y dylai'r term fod wedi cael ei ddiffinio.